Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll

a gynhaliwyd yn Y Ganolfan Llithfaen
Nos Fawrth, 13eg o Dachwedd, 2018 am 7:00 y.h.

Cadeirydd y Cyfarfod: Y Cyng. Griffith John Lesley Jones

Yn Bresennol -			Cynghorwyr - Griffith Jones (GJ), John Owen (JO), Lisbeth James (LJ), Sianelen Pleming (SP), Emlyn Hughes (EH),Ynyr Ellis (YE)
1.			**Hysbysiadau'r Cadeirydd** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd
2.			**Ymddiheuriadau** Sara Williams (SW), Gwilym Williams (GW), Olwen Roberts (OR), William Jones (WJ), a'r Cyng. Aled Jones (AJ).
3.			**Datgan Diddordeb** Dim
4.			**Diweddariadau asedau** Dim
5.			**Cofnodion Cyfarfod 9fed o Hydref, 2018**
	5.1		**Cyflwyno a mabwysiadu** Llofnodwyd y Cofnodion yn gywir
	5.2		**Materion yn codi**
		5.2.1	**Contract y Clerc** SP wedi cylchredeg copi o gontract y Clerc blaenorol o flaen llaw gyda'r aelodau ac wedi gofyn am unrhyw sylwadau ar newidiadau. LJ wedi codi bod y cyflog yn codi i £160 y mis. SW yn codi pwynt iechyd a diogelwch yn y cartref, penderfynwyd nad oedd yn berthnasol yn yr achos hwn. Llofnodwyd y Contract.
		5.2.2	**Wal y ffordd i Nant Gwrtheyrn** Adroddodd SP ei bod dal heb dderbyn pris yn swyddogol gan Dylan i drwsio'r wal - bydd yn adrodd ar gynnydd yn Cyfarfod mis Rhagfyr. Gofynnwyd SP beth oedd safbwynt y Cyngor ar ledu'r lon - Cynigodd LJ ac eiliodd EH a

			chytunwyd yn unfrydol gan bawb yn bresennol i gadw at y lled ar ffiniau presennol. *SP i adrodd y penderfyniad i'r Is Bwyllgor.*
		5.2.3	**Mynwent Pistyll** LJ wedi gyrru ymlaen i Esgobaeth Bangor gan fod Richard ddim yn nol yn ei waith ynglŷn â'r cynnig i atgyweirio wal y fynwent ond heb dderbyn sylwadau yn ôl hyd yn hyn. *LJ i ddilyn i fyny ymhellach gan fod y Cyngor yn awyddus i'r Eglwys beidio colli allan ar y cynnig.*
		5.2.4	**Cerrig Milltir Blwyf Pistyll** Eurwyn Griffith wedi bod yn yr Archifdy i geisio darganfod cofnod o'r cerrig milltir ar yr B4417 ym Mhlwyf Pistyll. Yn ôl map '*Ordance Survey*' 1888 dyma leoliadau bras y cerrig milltir wrth deithio o gyfeiriad Nefyn: • Caernarfon 19 / Nefyn 1 - rhwng Bodeilias a Thŷ Mawr. • Caernarfon 18 / Nefyn 2 – ochr Llithfaen o'r '*lay-by'* sydd ar draws y ffordd i'r tro am yr Eglwys a safle Plas Pistyll. • Caernarfon 17 / Nefyn 3 – wrth Tan y Foel. • Caernarfon 16 / Nefyn 4 – methu ei weld ar y map. (Nid oedd y map '*Ordance Survey*' mwy manwl ar gael.) • Caernarfon 15 / Nefyn 5 – o fewn ychydig o lathenni cyn cyrraedd mynedfa'r Hafod. *Y Clerc i gylchredeg y wybodaeth fel bod y Cynghorwyr yn cael gwneud yn siŵr fod y cerrig yn eu lleoliadau priodol cyn Cyfarfod mis Rhagfyr.*
		5.2.5	**Goryrru trwy Lithfaen** Y Clerc wedi bod mewn cyswllt ar PCSO lleol sef Elizabeth Williams, (PCSO 2899) i geisio trefnu cael Swyddog ar lefel uwch i'r cyfarfod, ond y anffodus wedi methu. Roedd y PSCO wedi cysylltu â Go Safe i ofyn am ddiweddariad ac ar ddallt fod y safle yn fyw ers mis Mai ond yn anffodus ni fy gorfodi y mis diwethaf oherwydd tywydd garw a diffyg parcio diogel i'r beic. Mae pryderon gan y Cyngor fod y beic ddim yn y safle ar yr amseroedd cywir. *Y Clerc i geisio trefnu eto cael Swyddog ar lefel uwch i gyfarfod Rhagfyr.*
		5.2.6	**Llwyni Peryglus** Nodwyd GJ fod llwyni peryglus yn tyfu i geg lon Awelfryn. *Y Clerc i drefnu a'r Cyngor Sir.*
		5.2.7	**Dwr a difrod i'r lonydd lleol** Nodwyd LJ bod draen yn rhedeg i geg lon heibio Capel Tabor ac yn dod lawr o Bryn Celyn, hefyd difrod i'r lon o Bistyll i Bentre' Uchaf, ochor isaf i Ben Isa'r Rhos wrth ymyl y corlannau. *Y Clerc i gysylltu â'r Cyngor Sir.*

6.			**Canolfan Llithfaen** SP wedi cael diweddariad a chopi o'r e. bost gan berchennog Tŷ'r Ysgol gan Catrin Gwyn mewn esboniad am y telerau parcio, gan fod dim telerau ffurfiol na gweithredol yn eu lle penderfynwyd: *SP i gysylltu â'r Cyngor Sir i drefnu gyda Thŷ'r Ysgol wneud trefniadau parcio swyddogol a pherchnogion y les newydd sef y Cyngor Cymuned neu Bwyllgor y Ganolfan.*
7.			**Tir Comin a Maes Parcio wrth fynedfa Nant Gwrtheyrn** SP wedi bod yn gweld y mapiau - mapiau yn dweud fod y tir comin yn stopio hefo'r llwybr syn mynd i Nant Gwrtheyrn - tydi'r tir mewn cwestiwn ddim yn dir comin swyddogol nac yn dir sydd piau neb. *SP am ddilyn y mater ymhellach.*
8.			**Cadarnhau Penodiad Archwilwyr Mewnol** SP yn cynnig a phawb yn cytuno parhau a'r Archwilwyr presennol.
10.			**Ceisiadau Cynllunio** Dim
11.			**Materion Lleol a gyflwynwyd o flaenllaw**
	11.1		**Baw ci ar lon Plas** SP yn cynnig ydi modd cael pedwar bin i ddal y baw ac arwyddion. *Y Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir am arweiniad.*
	11.2		**Gwasanaeth swyddfa Bost yn Llithfaen.** Nodwyd SP fod trigolion y pentref wedi bod heb wasanaeth Fan Bost Cymunedol am dair wythnos a dim arwydd i ymddiheuro nac esboniad am ddiffyg. Bydd addewid am wasanaeth pedwar diwrnod yr wythnos i'r pentref pan gaewyd y Llythyrdy. LJ yn cynnig a phawb yn cytuno gyrru cwyn swyddogol i'r Swyddfa Bost. *Y Clerc i weithredu.*
12.			**Gohebiaeth**
	12.1		**Bwletin Newyddion Un Llais Cymru** Y Clerc wedi ei gylchredeg o flaen llaw, dim sylw pellach

	12.2		**Ymateb ar ran y Prif Weithredwr gan ei Gymhorthydd Personol i ymwneud a cheisiadau cynllunio Plas Pistyll** Y Clerc wedi derbyn ymateb ar ran Y Prif Weithredwr yn esbonio ei fod wedi gofyn i'r Pennaeth Amgylchedd, fel y pennaeth adran sydd â chyfrifoldeb am y gwasanaeth cynllunio, am ei sylwadau. Bydd y Prif Weithredwr yn cysylltu cyn gynted a bo'r modd wedi iddo dderbyn ac ystyried y sylwadau hynny. *Y Clerc i adrodd ar gynnydd*
	12.3		**Cais gan Howard Huws Cydlynydd Ymgyrch Dwristiaeth, Cylch yr Iaith** Dogfen gan Gylch yr Iaith sy'n cyflwyno sylwadau ar dwristiaeth yng Ngwynedd gyda chais penodol yn ymwneud â pholisi twristiaeth y Cyngor Sir. Yn gryno, mae'r cais yn gofyn i Gyngor Gwynedd: 1. Lunio diffiniadau o ormodedd ymhob categori o ddatblygiad twristaidd. 2. Sefydlu trefn fonitro ac adolygu datblygu twristaidd a fydd yn mesur effeithiau datblygiadau yn unigol ac yn gronnol, gyda mesurydd priodol yn seiliedig ar feini prawf pendant ar gyfer adnabod gormodedd ym mhob categori a chyd-destun – trefn glir, ddiamwys a chyson yng ngolwg datblygwyr, cynghorwyr a threthdalwyr. 3. Gosod amodau cadarnach wrth ystyried ceisiadau cynllunio datblygiadau twristaidd er mwyn osgoi unrhyw niwed cymunedol. Cais i Gyngor Cymuned Pistyll fynegi cefnogaeth i'r ddogfen, a rhoi gwybod hynny i aelodau Cyngor Gwynedd yr ardal, ac i Arweinydd ac Aelodau Cabinet Cyngor Gwynedd. Cynigiodd LJ a chytunwyd yn unfrydol gefnogi'r Cais. *Y Clerc i weithredu.*
	12.4		**Apêl diffibriliwr ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref Gwynedd gan Calonnau Cymru** Gwybodaeth ynghylch sut i gael diffibrilwyr a hyfforddiant cpr am ddim. Codwyd cwestiwn gan SP os oedd modd rhoi arian a godwyd i Apêl y Diddifriliwr gan Mared Llewelyn yn dilyn Marathon Eryri yn gronfa'r Cyngor Cymuned, cytunwyd pawb yn bresennol.
	12.5		**Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Sir Gwynedd** Nodwyd y bydd ward Trefor a Llanaelhaearn yn newid ei enw i'r Eifl – dim gwrthwynebiad
	12.6		**Holiadur toiledau cyhoeddus – Llenwi ffurflen ymateb ar lein** Y Clerc wedi ei gylchreded o flaen llaw – dim sylw pellach

13.			**Cyllid**
	13.1		**Adolygiad Chwarterol** Adolygwyd a chymeradwywyd y cysoniad banc, gyfriflen proffid a cholled a rhagamcanion 2018/19.
	13.2		**Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod** Cyflog a threuliau'r Clerc - Hydref - Cyflog £160 / Treuliau - £14.02 Tachwedd – Cyflog £160 / Treuliau - £40.75 Taliad Archwilwyr Mewnol - £150.00 Taliad am hyfforddiant - £40.00

Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 12eg o Ragfyr am 7:00 y.h.

Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas *E.bost: ccpistyll@outlook.com*
1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP *Ffôn symudol: 07979438307*